

# Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 155

Rhif 19

Mai 12, 2022

50c.

## Neilltuo Arweinydd

Brynhawn Sul 24 Ebrill cafwyd oedfa hynod fendithiol yng Nghapel y Nant ar achlysur neilltuo Fiona Gannon yn Arweinydd. Llywyddwyd y cyfarfod yn urddasol gan Dewi Myrddin Hughes ac wedi i'r gynulleidfa luosog ganu emyn Morgan Rhys, Llanfynydd: 'O agor fy llygaid i weled/Dirgelwch dy arfaeth a'th air', offrymwyd darlenniad a gweddi gan Robat Powell.

Craidd yr oedfa oedd y neilltuo ei hun, a weinyddwyd gan Dewi ac a oedd

yn cynnwys holi Fiona am egwyddorion ei ffydd. Wedi i'r aelodau a chyfeillion eraill godi i gadarnhau derbyn ein harweinydd newydd, offrymwyd gweddi gan Eurig. A Fiona bellach wedi'i hurddo'n Arweinydd, datganwyd unawd deimladwy 'Gweddi y Pechadur' o waith



Morfydd Llwyn Owen gan Olwen Lintern-Smyth, chwaer Fiona.

### Pregeth ac emyn

Pregethwyd yn gynnil a phwrpasol gan Dewi, a gwelir crynodeb o'i neges berthnasol isod. Cafwyd unawd wrth yr allweddellau gan Bill, gŵr Fiona, a ganodd addasiad Cymraeg Fiona o emyn Saesneg Kevin Snyman 'I Dream of a Church' wedi'i osod ar alaw werin boblogaidd 'Streets of Laredo'. Dyma'r addasiad:

Gweddïaf am eglwys sy'n deffro dy fwriad,  
Sef pobol sy'n byw heb roi sylw i'r gost;  
sy'n byw ar genhadaeth yr Iesu a'i Ysbryd,  
I godi'r colledig a Neges y Crist.

Gweddïaf am eglwys sy'n llamu a dawnsio,  
Gan afael mewn sêr o'r lân wybren sy' fry;  
Fel proffwydi'r gorffennol yn tywys y bobl,  
Heb ofni'r hen Pharo ar orsedd mor hy.

Fe ganwn mewn eglwys sy'n orlawn o chwerthin,  
Yn hybu cyfiawnder, a rhannu fel Ti;  
Sy'n dymchwel pob menter ariannol anfoesol;  
Gan lwyrr lawenhau yn dy wir Jiwbilî.

Fe weithiwn dros eglwys sy'n creu cyswllt cariad,  
Yn lloches a noddfa i'r gwan ar eu taith;  
Yn eglwys sy'n bwrw goleuni i'r t'wyllwch,  
Cyn cofleidio'r pechadur a'i dderbyn i'r praidd.

O Arglwydd, gwna ninnau yn bobl fel Iesu,  
yn credu mewn Teyrnas o ras sy'n ddi-ffael;  
Yn gwmni symudol o bobl ryfeddol,  
Yn teithio at lawnder a bywyd di-ail.

*parhad ar dudalen 2*

## TAITH YR UNDEB I GAERFYRDDIN

Bydd dathlu pen-blwydd Undeb yr Annibynwyr yn 150 oed yng Nghaerfyrddin eleni yn achlysur i'w gofio. Cafodd taith y Llywydd cyntaf, Gwilym Hiraethog, ei ail greu ar fideo a fydd yn rhan o'r Cyflwyniad Croeso. Dyma fe'n mynd i holi'r gyrrwr os oedd y trên o Lerpwl ar amser!

Cofiwch ddod i'r cyfarfodydd, prynhawn 7 Gorffennaf tan amser cinio ddydd Sadwrn 9 Gorffennaf. A beth am aros ymlaen? Fe fydd Gŵyl Canol Dref Caerfyrddin ar bnawn Sadwrn – achlysur bywiog i ddatlu ein Cymreictod gyda stondinau, cantorion ac ati. Yna, ar bnawn Sul am 2pm cynhelir Gŵyl Sul Sbsial Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Y siaradwr gwadd yn yr Egin, canolfan S4C, fydd neb llai na Huw Edwards BBC. Mwy o fanylion i ddilyn.



## Neilltuo Arweinydd - parhad

### Cyfarchion

Derbyniwyd cyfarchion ar ran Cyfundeb Gorllewin Morgannwg oddi wrth y Cadeirydd, y Parchedig Christian Williams, Bethel, Pen-clawdd, a chyfarchion ar ran Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchedig Dyfrig Rees. Ymysg y dymuniadau da i Fiona cafwyd gwerthfawrogiad teilwng o gyfnod a chyfraniad Robot Powell fel Arweinydd blaenorol. Derbyniwyd cyfarchion ysgrifenedig oddi wrth y Parchedig Leslie Noon ar ran yr Eglwys Fethodistaidd a Dr Alan Cram ar ran Cytún yng Nghlydach. Wedi eitem gerddorol fedrus arall, y tro hwn gan Llywelyn (mab Fiona) a Jonah Eccott, canodd y gynulleidfa eiriau gweddigar George Rees: 'O Fab y Dyn, Eneiniog Duw, fy Mrawd a'm Ceidwad cry'. Tynnwyd yr Oedfa i ben drwy fendith wedi'i thraddodi gan Dewi ac yna cafwyd awr ddiddan yn y neuadd dros banded a lluniaeth ysgafn; diolch am bob paratoi fu yno ar ein cyfer. Diolch am oedfa a fydd yn aros yn hir yn y cof ac a fu'n gychwyn teilwng i bennod newydd yn hanes Capel y Nant. Pob bendith i Fiona, ac edrychwn ymlaen i'w chefnogi yn y gwaith.

### Crynodeb o'r bregeth

Cododd Dewi Myrddin Hughes destun y bregeth o Efenyl Marc 1:18. 'Gadawsant eu rhwydau ar unwaith a'i ganlyn ef.' Pysgotwyr yw Seimon a'i frawd Andreas, a'r brodyr Iago ac Ioan hefyd. Wrth eu gwaith yn cael pethau yn barod yn eu cychod y maen nhw pan ddaw Iesu

heibio a'u gwahodd i'w ddilyn.

'Gadawsant eu rhwydau ar unwaith,' meddai Marc am Seimon ac Andreas, ac am Iago ac Ioan meddai, 'a chan adael eu tad aethant ymaith ar ei ôl ef.' Dydyn nhw ddim yn gofyn am amser i feddwl, ddim yn gofyn iddo ddod 'nôl fory ar ôl iddyn nhw gael amser i ystyried. Yn y fan a'r lle, heb betruso dim, maen nhw'n mynd gydag e. Mae hi fel 'tase fe'n dweud, 'Beth ydych chi'n ei wneud fan hyn yn trwsio rhwydau, a bywydau a chalonnau mas fanna angen eu trwsio?'

### Dewis?

Faint o ddewis gawson nhw tybed? Fe ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion rywbryd, 'Nid chi sydd wedi 'newis i; fi sydd wedi eich dewis chi!' Allen nhw fod wedi gwrthod? Allech chi beidio â bod yn ddisgybl i Iesu? Allai Fiona fod wedi gwrthod y gwahoddiad i fod yn Arweinydd? Gallai, ar ryw lefel. Ry'n ni'n delio â dirgelwch fan hyn. Faint o ddewis gawson ni? Mae un peth yn sicr. Pan fyddaf i yn sefyll o flaen fy Ngwaredwr i roi cyfri am fy mywyd, fyddaf i ddim yn gallu dweud: 'Cofia 'mod i wedi bod yn ddisgybl i ti, 'mod i wedi arddel dy enw di, wedi dweud amdanat drwy 'mywyd.' Dydw i yn haeddu dim clod am ddilyn Iesu. Gras sy'n gyfrifol am hynny. Wnes i ddim ennill y fraint. Does dim gwobr i mi Wedi cael rhodd yr ydw i. Dim ond diolch yw fy lle. Y fath fraint a roed i ni!

Fiona, ry'n ni'n diolch i Dduw amdanoch, ac yn gweddïo y cewch fendith wrth ei ddilyn e a'n harwain ni. Derbyniwch ein dymuniadau gorau posib.

[Allan o *Bwrlwm* mis Mai 2022]

## Colofn Natur a Gwyddoniaeth

### Adar penodol yn y Beibl: Y Gigfran (2) gan Dewi E. Lewis

Er bod rhai yn ystyried y gigfran fel aderyn tywyll neu ei chysylltu â newyddion drwg mae'r Beibl yn ein hatgoffa mai aderyn Duw ydyw a bod lle canolog iddi yn ein hymwneud â'n gilydd.

'Efe sydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant, ac i gywion y gigfran, pan lefant.'

Salm 147:9



Mae cywion cigfran yn loddestwyr heb eu hail ac yn galw yn ddi-baid i gael eu porthi. Weithiau oherwydd galwadau di-baid y cywion fe fydd y rhieni'n cludo mwy o fwyd na all y cywion ei fwyta. Bryd hynny fe fydd y bwyd dros ben yn cael ei adael ar ymyl y nyth neu yn cael ei ollwng yn fwriadol er mwyn i greaduriaid eraill elwa o'r wledd. Cred rhai ysgolheigion mai dyma ddigwyddodd yn hanes Eleias. Cludo bwyd nad oedd ei angen ar y cywion i borthi Eleias wnaeth y cigfran.

'Ac o'r afon yr yfi; a mi a bennais i'r cigfran dy borthi di yno,' ac, 'A'r cigfran a ddygent iddo fara a chig y bore, a bara a chig brynawn.'

1 Brenhinoedd 17:4 a 6.

Dadleua rhai ysgolheigion nad y gigfran sydd dan sylw yn y testun. Y gair Hebraeg a ddefnyddir yn y testun yw 'orebin' sef y crawciwr. Dadleua rhai mai cyfeiriad sydd yma yn hytrach at drigolion tref gyfagos yn ystod y cyfnod, sef Orbo. Cred eraill mai cyfeiriad sydd yma at ddynion oedd yn pedlera yn yr ardal. Yr enw lleol ar y dynion yma oedd 'Cigfran'. Beth bynnag yr esboniad mae hanes Eleias yn ein hatgoffa nad aderyn dinistr neu dywyllwch yn unig yw'r gigfran yn y Beibl ond hefyd aderyn brawdoliaeth a chynnal cyd-ddyn mewn angen. Gwers i ni gyda.

### PROSIECT DIGIDOL DENMAN 2022

Gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu fideo byr (dim mwy na 2 funud o hyd) ar y thema:

#### Rheswm i ddathlu

'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd.' (Salm 95:1)

Ym mlwyddyn dathliadau 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; pa resymau sydd gennym i ddathlu fel Cristnogion yng Nghymru heddiw?

Anfoner eich fideos at [rhodri@annibynwyr.cymru](mailto:rhodri@annibynwyr.cymru) erbyn 15 Mehefin 2022.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu [undeb@annibynwyr.cymru](mailto:undeb@annibynwyr.cymru)

# Yr Adran Gydenwadol

## Cadeirio archesgob newydd yr Eglwys yng Nghymru

Yn dilyn ymddeoliad yr Archesgob John Davies, etholwyd archesgob newydd i'w olynu fis Rhagfyr diwethaf. Ac ar 30 Ebrill eleni cafodd Andrew John, sef esgob Bangor, ei gadeirio'n archesgob newydd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghadeirlan Deiniol Sant ym Mangor. Gyda phlant a phobl ifanc yn cael lle amlwg yn y gwasanaeth, cerdd mewn Ffrangeg, cerddoriaeth oedd wedi ei chyfansoddi'n arbennig ar gyfer yr achlysur, côr y gadeirlan ar ei orau a chadeirlan yn llawn o dystion i ddyuno'n dda iddo, bu'n ddiwrnod i'w gofio.

Cafwyd pregeth arbennig gan yr Archesgob, ac oedfa yn ei chyfanrwydd oedd yn wledd i'r llygad a'r glust. Yng Nghapel Mair yn y gadeirlan gwnaed y Datganiad Cadeirio Synodaidd gan yr Archesgob, gan ddatgan, 'Yr wyf fi, Andrew, Archesgob Cymru, trwy Ragluniaeth Ddwyfol, yn ddifrifol yn datgan y byddaf yn ufuddhau i gyfansoddiad, canonau, cyfreithiau ac arferion cymeradwy yr Eglwys yng Nghymru yn weddus, ac y byddaf hyd eithaf fy ngwybodaeth, fy ngallu a'm nerth yn cynnal ac yn amddiffyn hawliau a rhyddfrefnau ei Chorff Llywodraethol.'

Mae modd gwyllo'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd ar sianel Youtube [Esgobaeth Bangor](#). Un a oedd yn y gwasanaeth oedd Aled Davies, a chafodd gyfle i holi'r archesgob newydd ar ran *Cenn@d* am ei obeithion a'i weledigaeth.



**Yn y lle cyntaf, llongyfarchiadau ar gael dy ethol yn Archesgob Cymru, a dymunwn yn dda i ti ar ddechrau'r bennod newydd hon. Wrth gychwyn ar y daith, tybed beth yw dy weledigaeth a'th brif obeithion wrth ymgymryd â dyletswyddau archesgob?**

Un o fy mhrif obeithion a'm gweledigaeth fel archesgob yw y gall Cymru adnabod cariad achubol Iesu Grist, yn enwedig yn y tymor hwn, cyfnod y Pasg – gwledd fawr a gŵyl gobaith. Credwn yng ngrym cariad dros gasineb a bywyd dros farwolaeth. Mae'r pŵer i ddewis, i gyfeirio ein hunain at y ffordd hon o fyw, yn wirioneddol drawsnewidiol. Fy ngobaith, fy ngweddi yw ein bod ni yma yng Nghymru yn byw'r newyddion da hyn yn y penderfyniadau mawr a llai a wnawn.

**Amen i hynny, a heb os mae honno'n weledigaeth sy'n perthyn i ni i gyd, gobeithio. Ond gwyddom nad yw'r gwaith yn hawdd yn y cyfnod rydym yn byw ynddo ar hyn o bryd. Beth yn dy farn di fydd y prif heriau fydd yn wynebu'r eglwys dros y degawd nesaf?**

Mae sawl her yn wynebu ein heglwys a'n cymdeithas dros y degawd nesaf. Mae mater newid hinsawdd, a hynny'n gwbl briodol, ar frig agenda ein cenedl, ac mae'r Eglwys yng Nghymru wedi penodi ei Hyrwyddwr Newid Hinsawdd cyntaf. Yng nghyfarfod ein Corff Llywodraethol yr wythnos hon cymeradwywyd fframwaith digarbon sy'n annog ein holl eglwys i symud yn gyflym at sero net. Rydym hefyd yn nghyd-destun rhyfeloedd parhaus a gwrthdaro

chwerw mewn gwahanol leoedd yn y byd. Mae'r tywallt gwaed yn Wcráin, a ganiatawyd mewn modd dychrynlyd gan ran o'r Eglwys, wedi ein hatgoffa ei bod yn fwy anodd cadw'r heddych na dechrau rhyfel. Mae dadlau am y gwir yn gostus. Pan fydd cyfiawnder dan fygythiad, rydyn ni'n dod yn rhan o gydweithredu â drygioni. Mae'r rhain yn ein hatgoffa ein bod yn byw mewn cyfnod bregus.

**Wrth sôn am gyfnod bregus, rydym i gyd yn ymwybodol o'r lleihad a welwyd yn nifer y plant a theuluoedd o fewn ein cynulleidfaoedd. Tybed a oes gan yr Eglwys yng Nghymru gynlluniau i geisio ymestyn allan er mwyn cyrraedd a denu'r to iau i mewn i fywyd yr eglwys?**

Bydd gan bob esgobaeth o fewn yr Eglwys yng Nghymru ei chynlluniau ei hun ar gyfer plant a theuluoedd. Yma, yn Esgobaeth Bangor, un o'n blaenoriaethau yw croesawu plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r Prosiect Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr esgobaeth yn anelu at alluogi gweinidogaethau newydd yn y maes hanfodol hwn o'n bywyd a'n cenhadaeth. Mae Grŵp Elen wedi'i sefydlu i ddod ag arweinwyr a gwirfoddolwyr y weinidogaeth hon ynghyd o bob rhan o'r esgobaeth i rannu

newyddion a syniadau da ac i weddio gyda'n gilydd. Mae gennym nifer o Weinidogion Teulu Trwyddedig Lleyg yn gweithio o fewn Ardaloedd Gweinidogaeth i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

**Mae'n dda iawn clywed am gynlluniau newydd a mentergarwch. Wrth ystyried ein tystiolaeth Gristnogol yn y Gymru gyfoes, ôl-Covid, tybed a wyt yn credu bod angen mwy o gydweithio rhwng yr enwadau yng Nghymru? Mewn cyfnod lle rydyn ni'n gweld eglwys i a chapeli'n cau, ac ambell gymuned bellach heb yr un addoldy yn y pentref, a oes yna le i ddatblygu cydweithio a chydaddoli yn lleol rhwng cynulleidfaoedd enwadol, er mwyn sicrhau bod yna dystiolaeth Gristnogol yn parhau o fewn y gymuned?**

Yn fyanerchiad yn y gwasanaeth cadeirio, pwysleisiais ein bod hefyd wedi gweld cydweithio fel eglwys, ar unrhyw beth mwy na bywyd lleol, yn broblematig. O'm rhan i, rwyf am wahodd cyd-weithwyr i sgwrs am ffyrdd y gallwn, gyda'n gilydd, fendithio pobl Cymru – yn ein hymrwymiad ar y cyd, yn ein dwy iaith, i'n holl gymunedau. Byddaf yn ysgrifennu at eglwys, hen a newydd, yn fuan iawn ar gyfer cael sgwrsiau gonest am ble yr ydym a sut y gallwn wneud cariad achubol Iesu Grist yn fwy gweladwy ar draws y wlad hon. Ac i'm cyfeillion annwyl o ffydd arall, yr wyf finnau hefyd yn gwneud y gwahoddiad hwn: mae arnom angen ein gilydd a gallwn wneud mwy gyda'n gilydd nag ar wahân. Tybed beth sydd gan y dyfodol i'n gwahanol gymunedau ffydd a sut y gallwn reoli dyfodol sy'n profi'n well na'n gorffennol?

**Diolch o galon, Andrew, am y sgwrs, a gobeithio'n wir y gwelwn wireddu llawer o'r hyn a rannwyd yma. Bendith Duw ar dy waith.**

# Gweddi'n magu perthynas

**Darllen: Luc 11:1–13; Datguddiad 3:20**

Pe byddwn i'n cael punt am bob tro mae rhywun yn dweud wrthyf ei fod yn ffeindio gweddi yn anodd, mi fyddai yna dipyn o bres gen i yn y banc! Mae gweddi yn un o'r pethau yna rydyn ni fel Cristnogion yn gwybod ei fod o'n bwysig i ni ei wneud, ond eto rydym yn ei gael mor anodd. Efallai ein bod yn teimlo fod Duw yn bell a'n bod ni ddim yn gwybod sut i siarad ag ef, ac efallai hyd yn oed yn gofyn y cwestiwn, 'Ydy o'n gwneud gwahaniaeth, beth bynnag?' Ac felly, yn hytrach na restlo efo hyn, rydym yn rhoi'r gorau iddi ac yn cario mlaen gyda'r gwaith o'n blaenau ni.

Ond efallai ein bod wedi camddeall beth yw gweddi. Dydy gweddi ddim yn rhywbeth sych rydym yn gorfod ei wneud ond yn berthynas rydym yn ei magu. Rydym wedi cael ein creu i fod mewn perthynas. Dyma pwy ydyn ni. Dyna pam mae pobl yn priodi, yn gwneud ffrindiau gydag eraill, yn ymuno â chlybiau ayyb. Mae rhai'n ei chael hi'n haws nag eraill ond rydym i gyd yn dyheu am adnabod eraill a chael ein hadnabod. Duw mewn perthynas sydd gennym ni hefyd, sef: y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Pan ddeuwn yn fyw yng Nghrist, rydym yn cael ein gwahodd i mewn i'r berthynas yma hefyd.

Sut allwn ni fagu'r berthynas yma? Dyma dair allwedd i'n helpu ni ar y ffordd:

## 1. Dod â'r person cyfan i mewn i'r berthynas

Pan ydyn ni'n dod at Dduw mewn gweddi, os ydyn ni'n dod â rhestr o anghenion pobl eraill yn unig neu os ydym yn gofyn am help pan fyddwn mewn argyfwng yn unig, dim ond un rhan fach o'r berthynas ydy hynny. Ydy, mae hyn yn weddi, ond eto dim ond rhan fach o'n perthynas ni gyda Duw ydyw.

Meddylwch am berthynas: rydym yn rhannu meddyliau, yn rhannu ein teimladau, yn rhannu profiadau ac yn rhannu dyheadau. Weithiau rydym yn dawel yng nghwmni cyfaill agos, ac yn yr un modd ag rydym yn rhannu ag eraill, mae eraill yn rhannu gyda ni.

Mae'r pethau yma i gyd yn bresennol yn ein perthynas ni gyda Duw. Ond mae 'na wahaniaeth mawr yn y berthynas

yma. Does dim angen i ni guddio dim byd, achos rydym yn cael ein derbyn yn llwyr. Fydd 'na ddim byd fedrwn ni ei wneud fydd yn peri i Dduw droi ei gefn arnom. Yn ogystal â hyn, mae perthynas ag eraill yn gallu bod yn straen weithiau a gallwn deimlo baich perthynas. Ond yn ein perthynas â Duw rydym yn gallu dod i orffwys, fel mewn porfa hyfryd. Efydd yn cymryd ein beichiau ac yn rhoi gorffwys i ni. Ac mae yna gymaint mwy fedrwn ni ei ddweud am ein Duw sydd yn ffrind fel neb arall.

Os nad ydyn ni'n dod â'r person cyfan i mewn i'r berthynas, yna dydy'r berthynas ddim yn gallu mynd yn ddwfn iawn, ac mae'n teimlo'n rhwystredig ac yn sych. Dydy hyn ddim yn digwydd dros nos; mae'n broses sy'n datblygu dros amser. Ond os nad ydym yn rhoi amser i'r berthynas, fydd hi byth yn dyfnhau.

## 2. Nid ydym yn gallu datblygu perthynas ar frys

Nid yw perthynas yn cael ei chreu heb rhoi amser iddi, ac mae hyn yn wir gyda Duw hefyd.

Dychmygwch fwrdd bwyd wedi cael ei osod, gydag Iesu yn eistedd ar un ochr a lle wedi ei osod i chi ar yr ochr arall. Mi fedrwn chi fynd at y bwrdd amser brecwast a dweud helô wrth Iesu, cymryd darn o dost oddi ar y bwrdd a cherdded i ffwrdd i wneud gwaith y diwrnod. Neu mi fedrwn ni eistedd i lawr a bwyta a threulio amser yn siarad a gwrandao ar Iesu. Mae'n dda i'r corff os ydym yn stopio i fwyta, ac mae'n dda i'n henaid hefyd i stopio a bwyta bwyd ysbrydol. Ychydig oriau'n ddiweddarach rydym yn dod yn ôl at y bwrdd i gael cinio, ac wedyn te a swper hyd yn oed. Yn yr un modd ag rydym yn mynd yn ôl ac ymlaen at y bwrdd bwyd i gael nerth i'r corff, fe fedrwn ni fynd yn ôl ac ymlaen at y bwrdd i gael cymdeithas gyda'r Iesu fydd yn nerthu ein henaid.

Rydym yn gallu teimlo'n euog weithiau yn treulio'r amser yma gydag Iesu oherwydd bod yna gymaint o bethau i'w gwneud. Ond wrth i ni gymryd yr amser yma, rydym yn cael cymdeithas felys sy'n rhoi nerth i ni, ac yn y lle yma rydym yn dysgu pwy yw Duw a phwy ydyn ni ynnddo ef. Mae ein gweithredoedd

wedyn yn llifo allan o berthynas fyw yn hytrach nag o ddyletswydd. Mae hyn yn newid popeth.

## 3. Dod fel plentyn

Mewn bywyd, rydym yn aml yn gorfod edrych fel petaen ni'n gwybod beth rydyn ni'n ei wneud, er efallai ein bod yn teimlo'n ansicr tu fewn! Ond gyda Duw, does dim raid i ni esgus ein bod yn gwybod beth rydym yn ei wneud. Mae hwn yn lle hollol saff i ni fod yn fregus ac yn ansicr achos mae Duw wrth ei fodd yn ein dysgu ni. Fe ddywedodd Iesu fod yn rhaid i ni ddod fel plant beth bynnag yw ein hoed, ac mae 'na gymaint o rhyddid yn hynny.

Mae yna arwyddocâd newydd i hyn yn y cyfnod rydym ni ynnddo fo nawr. Fy argyhoeddiad i yw ein bod wedi cychwyn ar 'oes' newydd yng Nghymru, ac rydym yn dechrau gweld Duw yn symud trwy ein gwlad mewn grym unwaith eto. Ond gan fod hwn yn gyfnod newydd, mae'n rhaid i ni agosáu a buddsoddi yn ein perthynas gyda Duw, a dod fel plant yn ostyngedig oherwydd mae angen i ni fel pobl Dduw gael ein paratoi. Meddylwch am stori Noa pan adeiladodd yr arch cyn i'r storm ddod, a chyn i unrhyw un ddeall beth oedd glaw! Roedd ei gymdogion yn meddwl ei fod yn jôc, ond roedd Noa wedi clywed Duw ac roedd yn barod am yr hyn oedd i ddod. Yn yr un modd, rydym eisieu dod yn agos fel ein bod yn gallu clywed a deall beth yw strategaeth Duw, ac yn aml dydy strategaeth Duw yn ddim byd tebyg i'n strategaeth ni.

Ac felly, gyfeillion, teimlwn fod Duw yn symud yn ein gwlad ni unwaith eto, ac mae 'na wahoddiad i ni ddod yn agos fel plant a threulio amser gyda'n creawdwr a'n hachubwr. Mae'r gymdeithas yn felys ac yn y lle hwn rydym yn cael ein paratoi ar gyfer y deffroad ysbrydol sydd wedi cychwyn yn ein gwlad annwyl ni. Mae 'na ddyddiau syfrdanol o'n blaenau; ond er mwyn i ni fedru cerdded y daith mewn buddugoliaeth, mae'n rhaid i ni fod yn barod. Dim ond Duw sy'n gallu gwneud hynny, ac felly dewch fel Mair i eistedd wrth draed yr Iesu i ddysgu oddi wrtho, mwynhau ei gwmni a chlywed beth yw ei strategaeth ar gyfer y camau nesaf.

*Anna Mari Huws  
Y Bala*

*(O sgwrs a roddwyd fel rhan o Wyl Llanw yn Aberystwyth wedi'r Pasg)*

S4C

### Dechrau Canu, Dechrau Canmol

**Sul, 15 Mai, am 7.30yh (ailddarlliedir am 11:30yh y Sul canlynol)**

Bydd Ryland yn cwrdd â phennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Mari McNeill, i glywed am waith dyngarol yr elusen a bydd yn ymuno mewn taith gerdded yn Sir Benfro gyda chriw sy'n benderfynol o wneud gwahaniaeth. Daw'r canu mawl o leoliad awyr agored sy'n dangos prydfwerthwch y rhan hon o'r byd ar ei orau, Eglwys y Santes Fair, Talbenny.

BBC radio cymru

### Caniadaeth y Cysegr

**Sul, 15 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**

Mererid Hopwood yn trafod emynwyr a cherddorion o amrywiol wledydd sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

**Sul, 15 Mai, am 12:00yp**

Sul Cymorth Cristnogol – gwasanaeth dan ofal staff a chefnogwyr Cymorth Cristnogol

## Llwyddiant Jerina



Ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol, dyma stori un person a lwyddodd i newid ei bywyd

Yn ganolog i stori Wythnos Cymorth Cristnogol eleni y mae addasu dulliau amaethu er mwyn sicrhau y gall teuluoedd fwydo'u hunain. Mae'r argyfwng hinsawdd, y teimlir ei effeithiau o amgylch y byd, yn golygu fod tyfu bwyd wedi mynd yn her anferth, ac weithiau'n amhosibl. Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi dwysáu'r problem hon.

Ond wrth inni sefyll ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, mae stori Jerina damaid yn wahanol.

Yn ei siaced las, mae'n dal grindar yn ei llaw. Nid addasu fel ffermwr y mae Jerina wedi ei wneud – ond hyfforddi fel weldiwr. Fel merch, mae'n torri tir cwbl newydd yn Zimbabwe.

Fel nifer o ferched yn y wlad, roedd Jerina'n ei chael hi'n anodd ennill bywoliaeth yn y sychder. Roedd pob diwrnod yn golygu ymdrech galed i orosi.

'Yn y sychder, roedd pethau mor anodd,' meddai. 'Doedd gen i ddim i'w werthu – dim nionod, dim tomatos. Bob bore roedd fy mhiant yn disgwyl bwyd gen i, ond doeddwn i ddim yn gallu rhoi dim iddyn nhw. Roeddwn i'n gorfod dweud wrthyn nhw, "Gadewch inni yfed dŵr a mynd i gysgu." Roedden ni'n mynd i'r gwely heb fwyta ers deuddydd.

'Roedd sylweddoli nad oedd gen i ddim i'w roi i'r plant yn torri fy nghalon. Roeddwn i'n wylo pan oedd pethau'n ddrwg. Ond byddwn yn sychu fy nagrau ac yn dweud wrthyf fy hun y byddai popeth yn iawn. Bydd bywyd yn newid.'

Allai Jerina ddim rhoi'r gorau i obeithio. Gyda chryfder, dygnwch a dyfalbarhad mam, newidiodd ei bywyd.

Diolch i gefnogaeth pobl fel chi, cafodd Jerina'r cyfle i hyfforddi fel weldiwr. Nawr mae'n falch o allu gwneud gwaith mae hi wrth ei bodd yn ei wneud, ac mae'n gallu gofalu am ei phlant.



Jerina a'i grindar

Wrth iddi weithio metel yn ei gweithdy, mae ei gŵr yn gweithio yn ei hymyl hefyd yn llawn balchder. Mae'n weldio fframiau ffenestri ar gyfer y tŷ y maent yn ei adeiladu. Gan wenu, meddai, 'Gallaf weld pethau'n newid i mi a fy nheulu.'

Yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon, gallwch chi helpu mwy o bobl fel Jerina i newid eu bywyd eu hunain.

Mae'r arian a godir yn ystod yr Wythnos yn mynd tuag at waith datblygu tymor hir fel yn achos Jerina. Mae gwaith fel hwn yn hollbwysig os ydym am sicrhau y bydd pobl yn fwy gwydn yn wyneb argyfyngau sydyn fel sychder neu lifogydd.

Ar hyd a lled Cymru, bydd grwpiau bach a mawr o Gristnogion yn codi arian yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Bydd rhywbeth at ddant bawb - o foreau coffi, i deithiau noddedig, i ganu cymunedol. Mae'r ymdrechion hyn mor allweddol i waith Cymorth Cristnogol ac yn eu tro, i bobl fel Jerina yn Zimbabwe. Dyma ddolen i adnoddau a gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol eleni: [CAW22-order-of-service-welsh.docx \(live.com\)](https://www.cennad.cymru/CAW22-order-of-service-welsh.docx)

## Cymorth Cristnogol yn penodi Prif Weithredwr newydd

Mae Cymorth Cristnogol wedi penodi Patrick Watt fel ei brif weithredwr newydd. Patrick oedd Cyfarwyddwr Polisi, Cysylltiadau Cyhoeddus ac Ymgyrchu'r mudiad cyn iddo lenwi swydd y prif weithredwr dros dro wedi ymadawid Amanda Mukwashi.

Ymunodd Patrick â Chymorth Cristnogol yn 2019, gan arwain gwaith polisi ac ymgyrchu'r mudiad yn y Deyrnas Gyfunol ar nifer o faterion, gan gynnwys cyfiawnder economaidd a hinsawdd.

Mae gan Patrick brofiad helaeth o fewn y trydydd sector. Bu'n gweithio i Oxfam, Action Aid ac Achub y Plant ar faterion fel addysg, iechyd byd-eang, dyled a masnach, a pholisi cymorth.

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol yng Nghymru ac aelod o fwrdd ymddiriedolwyr

y mudiad, Nan Powell-Davies, 'Rwy'n hynod falch fod Patrick Watt wedi ei benodi fel prif weithredwr. Mae'n berson sydd â phrofiad eang yn y maes ac mae'n teimlo'n angerddol dros gyfiawnder byd-eang. Bydd Cymorth Cristnogol mewn dwylo da.'

Meddai Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, 'Rydym yn croesawu Patrick fel ein prif weithredwr newydd. Edrychwn ymlaen at gael ei gwmmi yma yng Nghymru yn fuan.'

Ychwanegodd y prif weithredwr newydd, 'Rwy'n teimlo'n hynod freintiedig o gael derbyn y cyfle hwn i arwain mudiad mor wych ar ran nesaf y daith o fynd i'r afael ag achosion gwraidd tlodi a hybu urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder. Rwy'n edrych ymlaen at gael gweithio gyda'n staff, ein cefnogwyr, ein partneriaid ac eglwysi ymroddedig i wireddu ein gwledigaeth.



Patrick Watt

'Wynebwn heriau mawr: effaith economaidd Covid, yr argyfwng hinsawdd, a'r rhyfel yn Wcráin, sydd gyda'i gilydd yn gwrthio miliynau o bobl i dlodi.

'Mae dileu anghyfiawnder tlodi angen syniadau ffres sydd yn cryfhau lleisiau pobl ac yn herio camddefnyddio grym. Rwy'n edrych ymlaen at gael y cyfle i weithio fel rhan o fudiad ehangach dros newid.'

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](https://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Neb arall

Pan oeddwn yn fyfyrwr yng ngholeg Bala Bangor, cofiaf fynd i bregethu i eglwys nid anenwog yng Ngwalia Wen ar daith gasglu. Pan oedd myfyrwr yn mynd ar; daith gasglu' roedd yr eglwys lle'r oedd yn pregethu yn gwneud casgliad arbennig tuag at waith y Coleg. Teimlai rhywun gyfrifoldeb mawr i wneud argraff dda. Yn yr oedfa hon, yn ystod y bregeth roeddwn wedi gwneud y gosodiad fod Iesu'n gyfan gwbl unigryw ac nad oedd Gwardwr arall gan Dduw ar ein cyfer fel dynoliaeth, gan atseinio geiriau Pedr ar ddydd y Pentecost:

Fe ydy'r unig un sy'n achub! Does neb arall yn unman sy'n gallu achub pobl.

Actau 4:12 (beibl.net)

Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo.

(BCN)



### Morthwyl lwmp

Wel os dywedais i! Wedi'r oedfa, y tu allan i'r addoldy, daeth gwraig nid ansylweddol o ran huotled ataf wedi ei chynddeiriogi gan y gosodiad hwn a wneuthum. 'Pwy oeddwn i,' meddai, 'rhyw gyw pregethwr dwy a dima' cwbl ddibrofiad, i ddweud y fath beth?' Onid oedd arweinyddion crefyddol eraill wedi bod yn y byd allai sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â'r Iesu. Pobl fel Bwda, Mohamed a Gandhi? Beth oedd y gwahaniaeth rhyngddynt hwy ac Iesu? Onid oeddent oll yn meddu ar wirioneddau oedd yn tywys pobl at adnabyddiaeth o'r dwyfol? Tynnais fy ngwynt ataf ac am ennyd sefais yno'n gwbl stond yn rhyw deimlo efallai fy

mod mewn drama gan Harri Parri. Ceisiais ymateb iddi, er bod fy nhafod bellach yn gwllwm. O'r diwedd trawodd ateb i'w chwestiwn fi fel morthwyl lwmp ar fy arlais. 'Mae Iesu Grist yn fyw,' meddwn. A chydag ochenaid o ddirmyg trodd y wraig ar ei sawdl a diflannu i wyll y cyfnos. Go brin iddi gyfrannu'n hael tuag at y coleg cyn mynd.

### Y gwirionedd

Y mae'r Beibl a'r Iesu ei hun yn ein dysgu ei fod Ef yn gyfan gwbl unigryw yn hanes y greadigaeth faith. Nid un Gwardwr i ddynoliaeth ydyw ymhlith llawer o rai eraill, nid un ffordd mewn nifer o ffyrdd ydyw, ond yr *unig* Waredwr sy'n ein cymodi gyda Duw gan ddod ag achubiaeth. Nid oes neb sy'n gallu dal kannwyll i'r Iesu oherwydd mai Ef yw unig Fab Duw. Y Duw-ddyn perffaith a ddaeth i'n plith er mwyn mynegi cariad Duw tuag atom a dod ac iachawdwriaeth i bawb sy'n credu ynddo ynghyd â theyrnas Dduw. Pan wadwn hyn yr ydym yn gwneud Duw a chynnwys y Beibl yn gelwyddog. Hefyd rydym yn diraddio'r Iesu ac yn colli golwg ar y rhyfeddodau y mae Duw yn ei wneud trwyddo yn ei ras. Teflir amheuaeth ar yr hyn a gyflawnodd ar y ddaear, ei wyrthiau a'i ddysgeidiaeth, ystyr ei farwolaeth aberthol ar y groes ac arwyddocâd ei atgyfodiad. Mewn oes eclecticig a chymysglyd fel hon rhoddir pwysau arnom i gyfaddawdu. Ond ni allwn gyfaddawdu gyda'r gwirioneddau am Iesu.

Wrth inni'r Pasg hwn ddathlu cariad Duw tuag atom gadewch inni wneud hynny yn llawn ffydd mai Iesu yw unig Waredwr y byd. Ac wrth sylweddoli hynny gwelwn pa mor bwysig yw ein gwaith fel Cristnogion wrth rannu'r newyddion da o lawenydd mawr.


Un waith am byth oedd ddigon  
i wisgo'r goron ddrain;  
un waith am byth oedd ddigon  
i ddiodde'r bicell fain;  
un aberth mawr yn sylwedd  
yr holl gysgodau i gyd;  
un Iesu croeshoeliedig  
yn feddyg drwy'r holl fyd.

## Y TEULU JAMES

gan Mabel James Winterburn, Porth-cawl.

Rhai blynnyddoedd yn ôl bellach, derbyniais bwt allan o'r *Tyst* oddi wrth fy chwaer yng nghyfraith. Ni fedraf gofio ei ffurf, ond darn gan fy nghefnder W. H. James ydoedd yn datgan diddordeb y Parchg Ddr Ben Rees mewn llyfr yr oedd ef wedi ei ysgrifennu fel dilynnydd i'w ymdrechion i olrhain rhyw Lady Constantia fyddai ei dad yn hawlio oedd yn perthyn i'r teulu.

Gan fod cysylltiad teuluol rhyngof i a W. H. James, golygai hynny ei bod yn perthyn i'm hochr i o'r teulu. Felly, rhaid oedd dechrau chwilio o'm rhan fy hun. Yn ôl y llyfr, ceisio mae WH i olrhain hanes teulu James a Bates. Wel, i ddechrau arni, cofiais fod Mam yn dweud bod y teulu Bates, oedd yn byw yn Llanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn, yn fy amser i, yn perthyn i ni. Hefyd bod teulu Rees ym Mhorthaethwy yn perthyn. Nain, mam fy mam, oedd y James nesaf i ni yn ein coeden deulu. Yr oedd hi yn un o ddeg, sef John, Maria, Mary (fy nain), Hannah, Elin, Margaret, Lisi, Leusa, Joseph James ac Owen (nid o anghenraid yn y drefn honno). Plant Joseph ac Elizabeth James, Cefn Capel, Llanfairpwll.



Joseph ac Elizabeth James

Yn ei lyfr, fe dry WH ein sylw at dri phregethwr enwog sef, Edward James Nefyn, Joseph James, Amlwch, ac Waldo James. Clywais Mam yn sôn llawer am Edward James, Nefyn. Yr oeddwn yn adnabod Y Parchg Joseph James, Amlwch ond heb glywed am Waldo James o'r blaen. Os yr ydw i yn cofio yn iawn, meibion John James oedd Edward a Waldo, tra bod Joseph yn fab i Joseph ac Elizabeth James, (rhieni fy nain).

*parhad ar y dudalen nesaf*

## GWAHODDIAD

Braint yw estyn gwahoddiad i chi i oedfa ddathlu 30 mlwyddiant y Parchg Carys Ann yn gwasanaethu yr Arglwydd Iesu Grist yn eglwysi Capel y Wig, Llangrannog; Pisgah, Talgarreg a Phantycrugiau, Plwmp. Bydd yr oedfa yng nghapel Pisgah ar 8 Mai am 1.30pm. Byddwn hefyd yn dathlu 200 mlwyddiant yr achos yng nghapel Pisgah. Ar ran yr eglwysi, Llinos Whitfield: (01545) 590358.

# Golygyddol

## Gwnewch ddisgyblion

Ers degawdau bellach rydym fel Eglwys Cristnogol Ymneilltuol wedi wynebu argyfwng. Mae nifer y ffyddloniaid wedi lleihau yn frawychus a nawr rydym yn gweld nifer fawr o eglwysy yn dirwyn i ben ar ôl gwneud gwaith rhagorol am ddegawdau. Er bod elfen o dristwch a hiraeth ynghlwm wrth ddatgorffori eglwys ni ddylai'r aelodau sy'n weddill deimlo'n euog wrth gau pen y mwdwl oherwydd buont yn dystion triw i'r Arglwydd Iesu. Ac fe ddiolchwn ninnau iddynt am eu gwaith clodwiw.



### Newid aruthrol

Mae'n rhaid inni sylweddoli – yn enwedig fel cynulleidfaolwyr - mai am gyfnod yn aml iawn y mae Duw yn galw cynulleidfa unigol i dystio i'w chyfnod ac i'w hardal. Ar yr un pryd rydym yn ymwybodol ac yn hyderus y bydd Duw yn parhau gyda'i dystiolaeth trwy ei bobl yng Nghymru doed a ddelo. Beth bynnag yr argyfwng presennol y mae Duw wrth y llyw. Ond nawr rydym mewn cyfnod o newid aruthrol. Yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn

foesol, yn wleidyddol ac yn dechnolegol y mae'n ferw gwyllt o'n cwrpas ac yr ydym ninnau yn gorfod addasu fel Cristnogion i gynfas byd sy'n newid yn eithriadol o gyflym. Ar un llaw mae'n gyfnod digalon ac ar y llaw arall mae'n gyfnod cyffrous ac anturus wrth ystyried, beth yw'r bennod nesaf y mae Duw yn ei baratoi ar ein cyfer fel Cristnogion yma yng Nghymru. Rhaid hefyd cofio fod y ffydd Gristnogol heddiw yn tyfu yn aruthrol yn y byd yn gyffredinol yn enwedig yn Tsieina a chyfandir Affrica.

### Cymdeithasol

Y mae rhai rhesymau cymdeithasol amlwg pam fod eglwysy yn dirwyn i ben, fel symudiad poblogaeth, newidiadau cymdeithasol e.e. maint teuluoedd yn llawer llai, trai ar yr iaith Gymraeg a ffactorau economaidd fel diffyg gwaith neu gau gweithfeydd. Ond credaf fod yn peth eithriadol o bwysig y dylem fynd i'r afael ag ef sef bod cyn lleied o bobl newydd yn dod i ffydd yn yr Arglwydd Iesu. Bu amser pan oedd plant aelodau eglwys yn fodd i gynnal yr achos i'r dyfodol. Daeth y dyddiau hynny i ben ac nid oes cenhedlaeth newydd yn tyfu i fyny o fewn i'r mwyafrif o eglwysy. Beth bynnag, cam gwag oedd y syniad hwnnw mewn gwirionedd, oherwydd nid traddodiad yw Cristnogaeth, fel canu cerdd dant, ond ffydd ac argyhoeddiad.

### Dod i ffydd

Argyfwng ysbrydol yw ein hargyfwng ni yn waelodol, nid argyfwng ieithyddol, cymdeithasol, poblogaethol nac economaidd. Yn y bôn nid ffurf ein haddoliad, ein ffordd o siarad, ein geirfa, ein hadeiladau yw'r broblem fwyaf. Ein gwendid mawr yw nad ydym

yn ymestyn allan yn effeithiol gyda'r newyddion da mewn oes anghrediniol sy'n rhoi'r un daten am Iesu Grist. Erbyn hyn ychydig ar y naw sy'n dod i argyhoeddiad fod Iesu Grist yn Arglwydd ac yn Waredwr ar eu bywydau. Heb yr argyhoeddiad hwn nid yw pobl yn gweld y gwir angen i fod yn rhan o eglwys Iesu, i dyfu a dysgu am air Duw, i brifio yn ysbrydol heb sôn am wasanaethu'r Arglwydd trwy ei eglwys ac ymroi i fod yn rhan o deulu Duw. Oherwydd hyn y mae prinder arweinyddion a gweithwyr ymroddedig.

### Enghreifftiau

Mae'r Beibl yn llawn hanesion am Dduw yn galw pobl i ffydd ac i'w wasanaethu, e.e. Abram, Moses, Elias, Jeremeia, Eseia ayyb. Dyma dair enghraifft o'r Testament Newydd:

1. Dywedodd Iesu wrth Pedr ac Andreas, 'Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.' (Mat. 4:19)
2. Dywedodd Iesu wrth Martha, 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?' (Io. 11:25–26).
3. Meddai Iesu yn y Comisiwn, 'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser.' (Mat. 28:19–20)

### Gwneud disgyblion

Felly, rhaid dod i'r casgliad mai rhan hanfodol o'n gwaith bob amser yw cyflwyno'r newyddion da am Iesu mewn ffordd sy'n annog pobl i gredu ynddo fel Arglwydd a Gwaredwr a'u gwneud yn ddisgyblion. Wrth gwrs, mae gan yr Ysbryd Glân ran fawr yn y gwaith hwn ond mae cyfrifoldeb arnom ni i fod yn enillgar a gwneud disgyblion. Dyma'r comisiwn.

Ond beth yw'r weledigaeth sydd gennym yn hyn o beth? Sut ydym ni yn annog ein gilydd i gyflawni'r elfen hanfodol hon o'n gwaith? Ble mae'r cyrddau gweddi? Ble mae'r llenyddiaeth? Ble mae'r seminarau a'r gweithdai? Pa weithgareddau sydd gennym yn benodol i ennill pobl newydd o'r byd? Nid ffeirio aelodau o eglwysy eraill, ond ein bod yn hwyluso taith ysbrydol pobl o anghrediniaeth i ffydd. Sut ydym ni yn 2022 yn cyflwyno newyddion da Iesu mewn cymdeithas anghenus a digyfeiriad, lle mae'r dylanwad seciwlaariaeth mor ddylanwadol ar y boblogaeth?

Mae angen datblygu'r drafodaeth hon ymhellach yn ein plith a gweithredu ar fyder.

Alun Tudur

## Y TEULU JAMES – parhad

### Edward James

Ganwyd Edward James yn Llanfachraeth, Môn, 12 Mehefin 1839, yn blentyn hynaf John a Margaret James, a brawd O. Waldo James. Ymaelododd ym Modern yn 1853, a chodwyd ef i bregethu yn y Tabernacl, Caergybi, yn 1858, dan weinidogaeth William Griffith. Yn 1859, ar gais ei gyfaill William Ambrose ('Emrys'), Porthmadog, aeth i'r Gorseddau, ger Penmorfa, Sir Gaernarfon, i bregethu a chadw ysgol i'r gweithwyr llechi. Derbyniodd alwad i Lanaelhaearn a Sardis (Llangybi) yn 1860 ac ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth yno, 31 Gorffennaf–1 Awst 1861. Symudodd i Nefyn a'r Morfa



yn 1872, ac yno y bu hyd ei ymddiswyddiad oherwydd afiechyd yn 1897. Bu farw ar 21 Rhagfyr 1904, wedi cystudd maith.

Un o wŷr enwocaf ei enwad oedd 'James Nefyn'. Gwnaed tysteb enwadol iddo yn 1893, ac etholwyd ef yn llywydd Undeb Annibynwyr Cymru yn 1894. Cyhoeddodd *Ffyddlondeb Crefyddol, sef Pregeth ...* (Bethesda, 1866), ac *Amrywiol Bregethau ...* (Dolgellau, 1900), yn cynnwys ei anerchiad i'r Undeb yn 1894 ar 'Yr Annibynwyr Cymreig yn y Dywysogaeth a Threfi Seisonig'.

*Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

*Erthyglau, llythrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**  
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

### Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol gan Bwllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Dosbarth Beiblaidd Undebol Llangennech a Phontarddulais



Ers dros ugain mlynedd mae criw brwdfrydig a llon wedi cwrdd yn rheolaidd pob yn ail wythnos yn y Capel Bach, Bethesda, Llangennech i drafod a myfyrio ar y Gair. Sefydlwyd y dosbarth gan y Parchg Llewelyn Picton Jones, gweinidog Bethesda a Hope-Siloh Pontarddulais, gyda gweinidogion a lleygwyr yn arwain yr astudiaeth yn eu tro.

Ym mis Mawrth 2020 a Llew yn dathlu 25 mlynedd yn y weinidogaeth, roedd trefniadau yn eu lle gan yr ofalaeth i ddathlu'r achlysur nodedig hwn, ond wrth gwrs, er mawr siom, bu'n rhaid gohirio'r dathliadau yn sgil y pandemig. Bu'r dosbarth yn cwrdd pan oedd yn bosib yn ystod y cyfnodau clo, ac yn ystod y mis diwethaf, ddwy flynedd yn hwyrach na'r bwriad, cafwyd cyfle i nodi'r achlysur.

Cyflwynwyd llyfr John Davies *Cymru* i Llew ac englyn o waith y Parchg Gerald Jones ar ran y dosbarth gan Mrs Margaret Harries, ysgrifennydd Bethesda. Edrychwn ymlaen at barhau i fwynhau'r gwmnïaeth ddifyr, y trafod adeiladol, y ciniawau achlysurol, a'r bererindod flynyddol.

### Y Gair

Y mae'n sain, y mae'n syniad – y mae'n allu,  
 Yn allwedd i'r cread;  
 Duw yw hwn, y Duw sy'n Dad  
 I deulu'r Ymgawdoliad.

D.G.J.



### Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2022

Trwy ryw amryfusedd nid oedd dyddiadau Undeb 150 wedi eu cynnwys yn yr ohebiaeth a anfonwyd o'r swyddfa'n ddiweddar. Ymddiheuriadau fil am hyn.

**Dyma nodi, felly, mai o brynhawn Iau, 7 Gorffennaf hyd at amser cinio ddydd Sadwrn, 9 Gorffennaf y cynhelir y gynhadledd flynyddol eleni.**

Bydd croeso mawr a chynnes yn ein disgwyl ac edrychwn ymlaen at ddo dyngyd i Gaerfyrddin yn yr haf.

### Penderfyniadau i Undeb 150

Mae cyfle i gyflwyno penderfyniadau i'r Gynhadledd flynyddol. Dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dydd Gwener, 20 Mai fan bellaf.

“YDY, MAE DUW WEDI CARU'R BYD CYMAINT  
 NES IDDO ROI EI UNIG FAB.  
 ER MWYN I BWY BYNNAG SY'N CREDU YNDDO  
 BEIDIO MYND I DDISTRYW  
 OND CAEL BYWYD TRAGWYDDOL.  
 OHERWYDD ANFONODD DUW EI FAB I ACHUB Y BYD.  
 DIM I GONDEMNIO'R BYD.

IOAN 3: 16 - 17

